



Canllaw Bwrsari Cyflogadwyedd Parth Cyflogaeth Academi Cyflogadwyedd Abertawe

Yn newydd ar gyfer 2017/2018, Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (yr Academi) wedi cyflwyno Bwrsari Cyflogadwyedd. Bwriadwyd hwn i gynorthwyo myfyrwyr sydd angen cymorth ariannol i gwblhau gweithgaredd cysylltiedig â chyflogadwyedd. Er enghraifft, costau sy'n codi yn ystod lleoliadau di-dâl a chostau cysylltiedig â mynd i gyfweiliadau.

Gall yr holl fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe wneud cais am hyd at £100 drwy gwblhau ffurflen syml ar-lein, y gellir dod o hyd iddi yma: [Ffurflen Gais am Fwrsari Cyflogadwyedd](#)

Ar gyfer beth yn union mae'r Bwrsari?

Fe'i bwriadwyd i dalu costau rhesymol y gall myfyriwr eu hachosi wrth gwblhau gweithgaredd cysylltiedig â Chyflogadwyedd ac na ellir eu hawlio'n ôl o unrhyw ffynhonnell ariannu arall.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Costau rhesymol am lleoliadau gwaith ac interniaethau di-dâl nad ydynt yn ennill credydau (h.y. teithio a chynhaliaeth – gweler isod am arweiniad pellach mewn perthynas â hyn).
- Offer / dillad sy'n ofynnol ar gyfer lleoliad neu gyfweiliad (e.e. Offer Diogelwch).
- Offer arbenigol ar gyfer addasiad rhesymol, oherwydd nodwedd warchoddedig.
- Talu cost archwiliad DBS sy'n ofynnol ar gyfer swydd.
- Hyfforddiant cyflogadwyedd arbenigol.
- Gellir ystyried gweithgareddau eraill cysylltiedig â chyflogadwyedd hefyd; cysylltwch â ni i drafod.

Pethau na allwn dalu amdanynt?

- Hawliadau teithio a chynhaliaeth ar gyfer swydd gyda thâl.
- Hawliadau teithio a chynhaliaeth ar gyfer gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- Hawliadau teithio a chynhaliaeth yr hawliwyd amdanynt neu y gellir hawlio amdanynt oddi wrth y cyflogwr, darpar gyflogwr neu ffynhonnell gyllid arall (megis Mynediad i Waith).
- Hawliadau teithio a chynhaliaeth ar gyfer gweithgaredd a gwblhawyd ar Gampws Prifysgol Abertawe.
- Costau a achoswyd yn ystod amser gwaith – disgwyliwn i gyflogwyr ad-dalu unrhyw gostau a achoswyd gennych wrth gyflawni dyletswyddau ar eu rhan.
- Costau a achoswyd fel rhan o fodiwl sy'n ennill credydau (e.e. Prosiect y flwyddyn olaf / Blwyddyn mewn Diwydiant / Lleoliadau Cylchdro Meddygol, ac yn y blaen).
- Mwy nag un Bwrsari mewn Blwyddyn Academaidd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, os ydych yn teimlo bod hyn yn wir amdanoch chi.

Arweiniad Cyffredinol

- Mae bwrsariau ar gyfer profiad gwaith, interniaethau a lleoliadau ar gael ar gyfer cyfleoedd di-dâl yn unig; nid argymhellir bod yr un myfyriwr yn cwblhau mwy na 2 wythnos o brofiad gwaith di-dâl, llawn amser.

- Argymhellir bod y myfyriwr yn gwneud cais am fwrsari ymlaen llaw, a'i fod yn cael ei gymeradwyo cyn prynu tocynnau neu cyn creu trefniadau teithio manwl. Os telir costau cyn i fwrsari gael ei ddyfarnu, dylai myfyrwyr sicrhau bod ganddynt y modd i dalu am y costau hynny.
- Mewn amgylchiadau eithriadol mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn cadw'r hawl i ddyfarnu bwrsariau dros £100.
Os derbynnir bwrsari gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe cyn y gweithgaredd, a'r gweithgaredd yn peidio â mynd yn ei flaen, rhaid dychwelyd unrhyw swm o arian cymesurol i'r Academi. Dylai myfyrwyr gysylltu â ni yn unol â'r manylion isod os bydd hyn yn berthnasol.

Costau Teithio

- Mae bwrsariau ar gael i dalu costau teithio rhesymol ar gyfer pob gweithgaredd cyflogadwyedd di-dâl. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd profiad gwaith di-dâl, cyfweliadau a chanolfannau asesu. Gellir defnyddio bwrsariau i dalu costau petrol neu gludiant cyhoeddus. Disgwylir i fyfyrwyr ddewis yr opsiwn rhataf sydd ar gael, sy'n cynnwys cerdded pellteroedd byrion, lle bynnag y bo modd.
- Bydd rhai cyflogwyr yn cynnig costau i ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd am gyfweliad ac i ganolfan asesu. Dylid edrych i mewn i'r posibilrwydd hwn yn drylwyr, cyn gwneud cais i raglen Bwrsari Cyflogadwyedd Parth Cyflogaeth Academi Cyflogadwyedd Abertawe.

Cynhaliaeth

- Gall bwrsariau ddarparu swm rhesymol am gynhaliaeth.
- Mae cynhaliaeth yn cynnwys prydau bwyd ac unrhyw gostau teithio angenrheidiol eraill, e.e. tâl parcio, tollau, neu dâl tagfeydd.
- Ystyrir £5 y dydd yn swm rhesymol am brydau bwyd; ni fyddai'r Academi fel rheol yn disgwyl hawliad ond am Ginio'n unig. Fodd bynnag, ystyrir symiau dros £5 lle bo hyn yn rhesymol, e.e. ymgymryd â lleoliad gwaith di-dâl yn Llundain.

Sut i wneud cais

Er mwyn gwneud cais am Fwrsari Cyflogadwyedd, rhaid cwblhau'r ffurflen ar-lein, y gellir dod o hyd iddi yma: [Ffurflen Gais Bwrsari Cyflogadwyedd](#)

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth ag sydd modd – y rheswm mwyaf cyffredin dros wrthod ceisiadau yw'r wybodaeth annigonol a ddarparwyd.

Argymhellir cwblhau'r ffurflen gais am fwrsari cyn unrhyw weithgaredd cysylltiedig â chyflogadwyedd. Pan na fydd hyn yn bosibl, dylid gwneud yr hawliad cyn gynted ag y gall y myfyriwr wneud hynny, ac o fewn 2 fis i gwblhau'r gweithgaredd cyflogadwyedd.

Dylai myfyrwyr nodi nad yw'n ofynnol iddynt gyflwyno derbynebaw wrth wneud eu cais ond y dylent gadw'r derbynebaw am bob dim y maent yn ei brynu. Efallai y bydd y Brifysgol yn cynnal archwiliadau ar hap ar geisiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n ddilys.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, neu pe baech yn hoffi trafod y Bwrsari Cyflogadwyedd yn fanylach, cysylltwch â Thîm [Parth Cyflogaeth](#) yr Academi ar 01792 513134 neu anfonwch neges i: EmploymentZone@abertawe.ac.uk